

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /  
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee  
Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd / Priorities for the Sixth Senedd  
PR26  
Ymateb gan EDF Renewables / Evidence from EDF Renewables

Annwyl Mr Gruffydd AS,

Diolch am y cyfle i fynegi ein barn ar y materion sy'n flaenoriaeth i'r

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Mae hwn yn

Bwyllgor pwysig a fydd yn cydbwysu ac yn craffu ar waith Llywodraeth Cymru a DU yn unol â blaenoriaethau hinsawdd ac amgylchedd cenedlaethol Cymru ar adeg dyngedfennol.

EDF yw cynhyrchydd trydan carbon isel mwyaf y DU. Ein nod yw brwydro yn erbyn newid hinsawdd, ac rydym ni'n frwd dros greu dyfodol sero net lle mae ynni glân yn pweru ein bywydau. Rydym ni wrthi'n cefnogi trosglwyddiad Cymru i gyflawni sero net trwy adeiladu dyfodol ynni craffach gan ddefnyddio ein portffolio cynyddol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gan gynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr, cynhyrchu ynni solar, a storio ynni.

Ar hyn o bryd mae EDF Renewables yn gweithredu 2 fferm wynt ar y tir yng Nghymru; Cemaes ym Machynlleth (15 MW) a Llangwryfon ger Aberystwyth (9 MW). Ar ben hynny, rydym ni wrthi'n datblygu Garn Fach ym Mhowys a fydd â chapasiti o ryw 85 MW; rydym ni wedi sicrhau dau gysylltiad grid 50 MW ger Abertawe a Chasnewydd sydd i'w defnyddio i storio batris; ac, mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol, gyda'ch het arall fel Aelod dros Ogledd Cymru, ein bod yn ddiweddar wedi prynu fferm solar â chaniatâd o 50 MW ym Mhorth Wen, Ynys Môn, gyda'r potensial i gynnal cerbydau trydan.

Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad cryf i ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn datblygu piblinell sylweddol o brosiectau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys 500 MW o wynt ar y tir a 500 MW o bŵer solar. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd y gwaith hwn yn creu ac yn cynnal mwy na 2,000 o swyddi, yn datgloi mwy na



biliwn o bunnoedd o fuddsoddiad yng Nghymru trwy ein Strategaeth Gymunedol, yn ogystal â chefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol.

Dylai sicrhau sero net fod yn flaenoriaeth polisi economaidd ac amgylcheddol trosfwaol i Gymru. Ac fel y sonioch yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2021, mae gan y Pwyllgor gylch gwaith mawr i gyfrannu ato yn ystod y Chweched Senedd. Ynglwm wrth y llythyr hwn, rydym ni wedi darparu adborth ar flaenoriaethau dethol rydym ni'n arbenigo arnynt.

Unwaith eto, diolch am y cyfle i ymateb gyda'n barn i'r ymgynghoriad hwn ac mae EDF Renewables yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch cydweithwyr ar waith pwysig y Pwyllgor hwn trwy gydol y Chweched Senedd.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads 'David Acres'.

**David Acres**

**Pennaeth Rheoleiddio a Pholisi Adnewyddadwy**

Cc Aelodau'r Pwyllgor

## Newid Hinsawdd

Bydd adrodd parhaus am gynnydd yn erbyn targedau ac amcanion hinsawdd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru yn aros ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged sero net erbyn 2050 trwy gyflawni gweithredoedd datgarboneiddio allweddol. Roedd y Ddeddf Newid Hinsawdd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru o ran cyrff cyhoeddus a'u hymateb i berygl hinsawdd. O ystyried pwysigrwydd darparu sero net, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau hyn yn ymarferol, er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r camau angenrheidiol i liniaru newid yn yr hinsawdd.

## Ynni

Rydym ni'n croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod system ynni'r DU yn wynebu cyfnod o newid sylweddol, ac y bydd y blynyddoedd i ddod yn heriol. Rydym ni'n cefnogi'r ymrwymiad i leihau'r defnydd o danwydd ffosil. Fodd bynnag, er mwyn cwrdd â gofynion galw cynyddol yn y dyfodol, bydd y gostyngiad hwn yn gofyn am ehangu ffynonellau ynni carbon isel yn gyfatebol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn technolegau adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr yn y tymor agos. Mae gwynt a solar ar y tir yn dechnolegau aeddfed sydd â chost isel iawn y gellir eu defnyddio ar gyflymder, ac felly gallan nhw gyfrannu at gyflawni targedau hinsawdd Cymru ar gyfer

2030. Felly, dylid cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at y technolegau hyn yn y blaenoriaethau, gan y bydd y rhain yn hanfodol i sicrhau y gall Cymru gyrraedd ei tharged ar gyfer ynni adnewyddadwy i gynhyrchu swm sy'n cyfateb i 70% o ddefnydd trydan Cymru erbyn 2030.

Er bod diwedd cymhelliadau Llywodraeth y DU ar gyfer gwynt a solar ar y tir wedi cyfrannu at y dirywiad yng nghyflymder y defnydd adnewyddadwy yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae her hirsefydlog cyfyngiadau grid trydan hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol. Er ein bod yn ymwybodol nad yw seilwaith y grid yn dod o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr, mae diffyg capasiti grid digonol ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy newydd yn rhwystr allweddol sy'n atal defnyddio ynni adnewyddadwy ymhellach yng Nghymru. Bydd capasiti grid yn y dyfodol hefyd yn ffactor pwysig wrth alluogi trydaneiddio gwres a thrafnidiaeth, a bydd y ddau yn gamau allweddol wrth ddarparu economi sero net i Gymru. Felly, rydym ni'n argymhell bod capasiti grid trydan yn y dyfodol yn cael ei gynnwys fel blaenoriaeth allweddol i'r pwyllgor yn ystod y 12-18 mis nesaf. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Ofgem a'r Grid Cenedlaethol i sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau grid cyfredol yng Nghymru.

## Sero Net

Bydd llawer o'r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn hanfodol er mwyn i Gymru gyrraedd ei tharged sero net erbyn 2050, a'i tharged degawdol yn 2030 o ostyngiad o 63% yn erbyn y llinell sylfaen. Felly, credwn y dylai sero net fod yn flaenoriaeth polisi trosfwaol, gan y bydd cyflawni sero net yn dibynnu ar lwyddiant llawer o flaenoriaethau eraill a nodwyd fel ynni, plannu coed a thrafnidiaeth.

## Natur a bioamrywiaeth

Rydym ni'n falch bod bioamrywiaeth wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth i'r pwyllgor, gan fod y gyfradd gyfredol o golli bioamrywiaeth yn ddigynsail a bydd atebion i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth hefyd yn aml yn lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Hoffem ni dynnu sylw'r pwyllgor at y camau diweddar a gymerwyd i wneud enillion net bioamrywiaeth yn orfodol yn Lloegr, trwy ddiwygio'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, sy'n debygol o ddod yn gyfraith yn 2023. Mae hwn yn newid mawr yn y flaenoriaeth a roddir i fioamrywiaeth. Rydym ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymhwyso gofyniad enillion net bioamrywiaeth gorfodol tebyg trwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, i adlewyrchu blaenoriaeth gynyddol ar gyfer gweithredu cadarnhaol ar fioamrywiaeth.

Un canlyniad defnyddiol i hyn, o ystyried y bydd llawer o ddatblygwyr adnewyddadwy yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, fydd darparu cysondeb mewn gofynion bioamrywiaeth i ddatblygwyr. Mae'n galonogol bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu dangosyddion i fesur cynnydd. Awgrymwn fod y rhain yn ystyried metrig bioamrywiaeth 3.0 a ddatblygwyd gan Defra yn Lloegr, gan y bydd cysondeb wrth asesu bioamrywiaeth yn fanwl yn sicrhau bod datblygwyr yn gwybod yn iawn pa ofynion y mae'n rhaid iddyn nhw eu bodloni.